# System Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) / Cyfathrebu Radio / Diogelwch a Chadw Allweddi

Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd – Camerâu Gwyliadwriaeth Mannau Cyhoeddus

Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd (PIA) wedi'i argymell yn y cod ymarfer camerâu gwyliadwriaeth a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, yn unol ag adran 30(1) (a) o Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012. Diben yr asesiad PIA yw sicrhau bod y risgiau o ran preifatrwydd yn cael eu hystyried yn barhaol wrth ganiatáu i nodau'r prosiect gael eu bodloni ble bynnag bo hynny'n bosib.

Gall camerâu CCTV darfu ar breifatrwydd, gan fod modd gwylio pobl sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a recordio'u symudiadau wrth iddyn nhw fyw eu bywyd o ddydd i ddydd.

Mae rhaid i ni ystyried y buddion, unrhyw ddulliau eraill a pha fath o effaith mae'r camerâu yn ei chael ar unigolion.

Dylai'r materion yma gael eu hystyried yn wrthrychol yn rhan o broses asesu'r effaith ar breifatrwydd pobl wrth ystyried gosod camerâu CCTV.

Byddwn ni'n defnyddio canlyniadau'r asesiad i benderfynu a oes modd cyfiawnhau gosod camerâu CCTV ym mhob achos, ac os felly, sut y dylai'r camerâu gael eu gweithredu.

| | | |
|---|---|---|
| Enw: Wayne Bluck | Dyddiad: 27/06/23 | |
| Swydd: Uwch Swyddog | Sefydliad: Rhondda Cynon Taf | |
| Rhif y Camera / Rhifau'r Camerâu Tonypandy 3G 1-3 | Lleoliad/au: Maes Chwaraeon 3G Ysgol Nantgwyn Tonypandy | |

1. Pam fod eich sefydliad yn ystyried defnyddio camerâu CCTV?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| x | Trosedd ac Anhrefn | x | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | x | Troseddau Casineb |
| x | Aflonyddwch Ieuenctid | x | Troseddau Trwyddedu | x | Problemau Diogelwch |
| Arall | Diogelu'r cyhoedd | | | | |

2. Beth yw buddion defnyddio camerâu CCTV?

| | | | |
|---|---|---|---|
| x | 1. Canfod troseddau | x | 5. Lleihau trosedd ac anhrefn |
| x | 2. Lleihau ofni trosedd | x | 6. Darparu tystiolaeth ar gyfer y system cyfiawnder troseddol |
| x | 3. Lleihau tagfeydd a gwella diogelwch ar y ffyrdd | x | 7. Darparu tystiolaeth ar gyfer achosion troseddol |
| x | 4. Cynorthwyo o ran casglu gwybodaeth | x | 8. Arall |

3. Oes modd i gamerâu CCTV sicrhau'r buddion yma?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Oes | 2. Oes | 3. Oes | 4. Oes | 5. Oes | 6. Oes | 7. Oes | 8. Oes |

4. Oes modd i ddulliau sy'n tarfu llai ar breifatrwydd, er enghraifft gwella goleuadau stryd, gyflawni'r un nod?

| | |
|---|---|
| Nac oes | Mae'r goleuadau wedi gwella yn yr ardal, fodd bynnag, dim ond helpu'r system CCTV mae hyn. Does dim ateb hirdymor arall ar gael i ddiogelu'r cyhoedd/cymuned. |

5. Oes angen lluniau y gellir adnabod unigolion/cerbydau ynddyn nhw, ar eich sefydliad?

| | |
|---|---|
| Oes | Mae'r system yn gallu darparu lluniau o safon uchel yn unol â rheoliadau, a darparu lluniau tystiolaethol digonol i'w defnyddio gan gyrff erlyn. |

6. Beth yw barn y bobl hynny y bydd y camerâu yn eu recordio?

Enwau a chyfeiriadau adeiladau preswyl sy'n gwrthwynebu'r camerâu CCTV:

| Enw: | Cyfeiriad: |
|---|---|
| | ***Fe wnaethom ni ymgynghori â busnesau a thrigolion lleol yn yr ardal.*** |
| | ***Doedd dim gwrthwynebiadau i'r system gwyliadwriaeth mannau cyhoeddus o ran canol y dref:*** |
| | Fe fu ymgynghoriad ychwanegol â Heddlu De Cymru a Chynghorwyr Lleol yn rhan o'r broses. Roedd cyfle i'r trigolion a ymatebodd gael ymgynghoriad uniongyrchol. Fe wnaethom ni ymgynghori â busnesau lleol gan gynnwys asiantau gosod.<br>Mae lleoliadau'r camerâu yn cael eu hasesu bob blwyddyn ar sail disgwyliadau a safbwyntiau'r cyhoedd. Er enghraifft fyddwn ni ddim yn ymgynghori â'r cyhoedd os yw camerâu wedi cael eu gosod ers nifer o flynyddoedd ac mewn ardal lle mae economi bywyd nos bywiog. Fodd bynnag, *byddwn ni'n* asesu'r camerâu'n llawn i sicrhau eu bod nhw'n ateb y diben o ran y rheswm am eu gosod yn y lle cyntaf. |

7. A fydd y system yn sicrhau'r buddion gwreiddiol ac a fydd hi'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol?

| |
|---|
| Bydd:<br>Mae'r system yn cael ei chynnal a'i diweddaru i sicrhau bod y gwasanaeth o safon uchel. |

8. A yw'r system CCTV yn gyfatebol i'r broblem?

| |
|---|
| Ydy |

9. Oes modd ei chyfiawnhau o dan yr amgylchiadau?

| |
|---|
| Oes |
| |
| |

10. A yw'n angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael ag angen brys, er enghraifft diogelwch y cyhoedd, atal trosedd neu ddiogelwch gwladol?

| |
|---|
| Ydy<br>*Mae gofyn cael lluniau er mwyn adnabod unigolion sy'n torri amcanion y cynllun ac y bydd modd i gyrff erlyn eu defnyddio.* |

11. Beth allech chi'i wneud i leihau'r ymwthiad ar yr unigolion hynny y byddan nhw o bosib yn cael eu monitro, yn enwedig os oes pryderon penodol wedi cael eu codi?

| |
|---|
| Newid safleoedd stopio a disymud.<br>Rhoi parthau preifatrwydd ar gamerâu lle bo angen. |

12. Fydd yr hyn sydd yn yr arfaeth o ran gosod y camerâu yn digwydd ar sail gyfreithiol ac a fyddan nhw'n cael eu gweithredu yn unol â'r gyfraith?

| |
|---|
| Bydd / Byddan<br>Fe fydd yr holl luniau CCTV yn cael eu rheoli dan ddeddfwriaeth bresennol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a bydd symud data yn cael ei ddogfennu'n llawn. Mae modd i sefydliadau ddefnyddio cyrff eraill â phwerau gorfodi, yn ogystal â'r heddlu, (fel tollau tramor a chartref a rhai adrannau'r Cyngor)<br>Bydd y sawl sy'n berchen ar y cynllun yn cynnal y polisïau a'r gweithdrefnau i fodloni gofynion<br>BS7958:2015<br>BS7499:2013<br>BS7858:2012<br>Cod Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth<br>Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio<br>Deddf Hawliau Dynol<br>Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith<br>Cod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth |

| |
|---|
| Oes gofyn cael arwyddion: Oes |
| Mae arwyddion digonol wedi cael eu dosbarthu i bwyntiau strategol sy'n berthnasol i'r cynllun unigol.  Priffyrdd/Ardaloedd cyhoeddus. |
| |

**Adolygiad – Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd**

| | | |
|---|---|---|
| Rhifau'r Camerâu<br>Tonypandy 3G 1-3 | Dyddiad:<br>27/06/2024 | Enw: Robert Williams |
| Lleoliad/au:<br>Maes Chwaraeon 3G Ysgol Nantgwyn Tonypandy | Sefydliad: Rhondda Cynon Taf | |

| |
|---|
| A oes newidiadau wedi'u rhoi ar waith ers gosod y camerâu:  Nac oes |

| |
|---|
| A yw'r awdurdod wedi derbyn unrhyw gwynion ers gosod y camerâu: Naddo<br>(Os felly, rhowch fanylion). |